# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amgylcheddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amgylcheddol

**Lleoliad:** Canolfan Clybiau Ffermwyr Ifanc, Maes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt (a Microsoft Teams)

**Dyddiad y cyfarfod:** 16 Mai 2022

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, Hybu Cig Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Lee Price, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (ar-lein)

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin (ar-lein)

Chris Thomas, CNC

Fraser McAuley, Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Polina Cowley, Llywodraeth Cymru (ar-lein)

Bernard Griffiths, FUW

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Sarah Hetherington, CNC

**Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:**

Liz Davies, Sefydliad Gwy ac Wysg

Bridie Whittle, Sefydliad Gwy ac Wysg

Susie Kinghan, CNC (Prosiect Pedair Afon LIFE)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Kate Snow, United Utilities

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru

Katy Simmons, CNC

David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd Zoe Henderson o CNC bawb i'r cyfarfod cyntaf 'yn y cnawd' i'w gynnal yn 2022. Nododd Zoe yr ymddiheuriadau a gofynnodd i'r rhai a oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain.

2. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

   - D.S. Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datgan buddiannau eisoes, ond dylent hefyd gyflwyno datganiad pe bai ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

3. Croesawodd Zoe y gwesteion i'r cyfarfod, sef: Liz Davies a Bridie Whittle (Sefydliad Gwy ac Wysg) a Susie Kinghan (CNC).

## Eitem 2 Cyflwyniad gan Sefydliad Gwy ac Wysg

4. Ymunodd Liz Davies a Bridie Whittle â'r cyfarfod er mwyn rhoi cyflwyniad yn sôn am y gwaith a wneir gan Sefydliad Gwy ac Wysg gyda ffermwyr, yn cynnwys trafodaeth ynglŷn â rhai o'r heriau, y risgiau y daethpwyd ar eu traws, a'r atebion.

5. Dechreuodd Liz trwy gyflwyno trosolwg o Sefydliad Gwy ac Wysg. Sefydliad elusennol trawsffiniol yw Sefydliad Gwy ac Wysg, ac mae'n canolbwyntio ar adfer cynefinoedd, ansawdd dŵr a physgodfeydd Afon Gwy ac Afon Wysg. Mae aelodau'r Tîm

Cynefinoedd yn mynd i'r afael â gwaith ffensio a gwaith ar gynefinoedd, a hefyd maent yn rheoli rhywogaethau goresgynnol, yn cael gwared â choredau ac yn hwyluso ymfudiad pysgod, yn ymgysylltu ag ysgolion ac yn delio â phasbortau pysgota. Mae'r Tîm Cynghori Ffermwyr wedi ymgysylltu â mwy na mil o ffermwyr ledled dalgylchoedd Gwy ac Wysg, ynghyd â gweithio gyda ffermwyr i gefnogi mesurau cynaliadwy sydd o fudd i fusnesau fferm ac i'r amgylchedd ehangach. Mae'r tîm yn cynnig cyngor a chymorth grant ar gyfer gwaith cyfalaf yn ymwneud â gwella ansawdd y dŵr, rheoli llifogydd yn naturiol, cyfoethogi bioamrywiaeth ac iechyd pridd. Mae cymorth ar y fferm yn cynnwys profi lefelau maethynnau a deunydd organig, asesu strwythur y pridd a chynnal profion ymdreiddio, mapio risgiau, llunio adroddiadau fferm, a chynnig cyngor ynghylch seilwaith ar y buarth a chyngor ynghylch rheoli tir.

6. Cyflwynodd Liz drosolwg byr o Brosiect Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithon a Hafren (WISE). Caiff y Prosiect WISE ei ariannu gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru 2019-2021 ac mae'n gweithio gyda ffermwyr i ddiogelu a chyfoethogi adnoddau naturiol sydd o fudd i fusnesau amaethyddol, afonydd a'r gymuned ehangach. Ar y cyd â phartneriaid y prosiect, sef Ymddiriedolaeth Afon Hafren, ymwelwyd ag oddeutu 300 o fusnesau fferm mewn dalgylchoedd â blaenoriaeth er mwyn gwella ansawdd y pridd, lleihau llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle, cynyddu gorchudd coed a gwneud y gorau o fanteision lluosog. Cyflwynodd Liz drosolwg o ambell gyfle ac ambell ymyriad posibl, ynghyd â chrynodeb o allbynnau Prosiect Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithon a Hafren (WISE).

   Gofynnodd James Ruggeri, Hybu Cig Cymru, a yw'r arian yn talu am fynd i'r afael ag ymyriadau. Dywedodd Liz fod rhywfaint o arian mewnol ar gael a bod hwnnw wedi talu am rai ymyriadau ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol. Caiff ffermwyr eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru i wneud cais am arian. Gofynnodd James a fyddai modd ariannu'r ymyriadau posibl y soniodd Liz amdanynt trwy gyfrwng y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Dywedodd Liz y byddai hynny'n bosibl ac y gellid ariannu'r rhan fwyaf o'r ymyriadau trwy gyfrwng y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

   Gofynnodd Fraser McAuley o'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad faint o amser a gymerir yn fras i lunio cynllun fferm. Dywedodd Liz fod Sefydliad Gwy ac Wysg yn neilltuo oddeutu wythnos ar gyfer pob cynllun.

7. Dywedodd Liz fod Sefydliad Gwy ac Wysg yn gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi trwy gyfrwng Ymrwymiad Courtauld 2030, sef cytundeb gwirfoddol i leihau gwastraff bwyd, allyriadau nwyon tŷ gwydr a straen dŵr ar draws cadwyn fwyd y DU. Mae Sefydliad Gwy ac Wysg ymhlith chwech o ddalgylchoedd peilot sy'n gweithio gyda manwerthwyr a chyflenwyr fel rhan o'r cynllun arloesol hwn, ac aethpwyd ati i ffurfio Partneriaeth Bwyd-Amaeth Gwy lle pennwyd blaenoriaethau penodol i'r sector yn ystod y cyfarfod cyntaf yn dilyn Dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau).

8. Gan weithio gyda'r Bartneriaeth WWF-UK/Tesco a Muller, ymwelwyd â ffermydd godro, gan ganolbwyntio ar Sir Fynwy. Edrychodd yr ymweliadau hyn ar wella'r seilwaith (megis gwahanu dŵr glân/budr), rheoli tail a maethynnau, tan-hau indrawn, a chymorth grant ar gyfer gwaith cyfalaf. Awgryma'r canfyddiadau cychwynnol y byddai angen mwy na £580,000 ar gyfer yr holl welliannau angenrheidiol (20 o ffermydd). Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, pryd y cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo, a pha un a yw'n ystyried chwyddiant a'r cynnydd mewn costau. Dywedodd Liz fod y dadansoddiad wedi'i gynnal cyn y cynnydd mewn chwyddiant pan gwblhawyd y gwaith yn 2020.

Awgrymodd Rachel nad yw'r gadwyn gyflenwi yn rhannu'r costau hyn, ac mai her i ffermwyr ydyw. Dywedodd Liz fod y ffigurau wedi'u cyflwyno gerbron Muller a Tesco a byddant yn cael eu rhoi fel adborth yn adroddiad terfynol y prosiect.

Gofynnodd Chris Thomas, CNC, a yw Sefydliad Gwy ac Wysg yn adeiladu ar ymweliadau'r Prosiect Ffermydd Godro ynteu a yw'n cynnal archwiliadau newydd. Dywedodd Liz fod CNC yn ymwybodol o'r prosiect. Gofynnodd Rachel beth yw'r trefniant sydd rhwng CNC a Sefydliad Gwy ac Wysg mewn perthynas â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a phwy sy'n cadw golwg ar y prosiectau hyn. Dywedodd Zoe ei bod yn dda cael gwybod nad oes unrhyw ddyblygu yn digwydd. Dywedodd Zoe ei bod yn ddefnyddiol cael rhyw syniad o'r ffigurau er mwyn gwybod beth yw graddfa'r sefyllfa. Trafododd James a Rachel y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, ond oherwydd graddfa'r buddsoddiadau sy'n angenrheidiol, cydnabuwyd nad oes digon o amser yn aml i roi'r grant gan mai am dair wythnos yn unig y bydd y dyfynbrisiau ar gyfer unrhyw waith yn ddilys – byddant yn dod i ben ar ôl hynny. Esboniodd Sarah Hetherington, CNC, fod gan Loegr strwythur cyllido wedi'i warantu.

Gofynnodd James a yw'r ffermwyr yn awyddus i gyflwyno'r gwelliannau; ac os felly, efallai mai'r dull cyllido yw'r rhwystr. Dywedodd Liz fod y ffermwyr, ar y cyfan, yn dymuno gwneud y gwelliannau. Gofynnodd Sarah a ydynt wedi sylwi ar newid strwythurol yn Sir Fynwy (e.e. busnesau fferm yn troi eu cefnau ar odro). Cadarnhaodd Liz eu bod wedi sylwi ar rai newidiadau.

Cyfeiriodd Rachel at y cyflwyniad a soniai am dan-hau indrawn a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys tan-hau indrawn fel un o'r elfennau 'tyfu er mwyn yr amgylchedd', ond nad oedd rhygwellt wedi'i gynnwys. Dywedodd Liz fod croeso i Lywodraeth Cymru siarad â Sefydliad Gwy ac Wysg ynglŷn â'r gwaith a wnaethpwyd ganddynt gyda rhygwellt.

***PG01 Mai: Andrew Chambers neu Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, i gyflwyno gwybodaeth yn esbonio pam y cefnogir yr arfer o dan-hau indrawn a pham na chefnogir yr arfer o dan-hau rhygwellt.***

Awgrymodd Lee Price fod y strwythur yn ddiddorol. Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyngor, ond mae'n cyfeirio pobl sydd angen arian at Lywodraeth Cymru, tra mae Sefydliad Gwy ac Wysg yn gallu cynnig cyngor a grantiau.

Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod yr ystadegau a ddangoswyd yn syfrdanol, a gofynnodd pa ddull y gellid ei roi ar waith i ymdrin â graddfa'r broblem mewn modd realistig. Rhaid i'r negeseuon fod yn glir er mwyn i bobl allu deall yn iawn faint o arian y bydd angen ei fuddsoddi er mwyn cyflwyno'r gwelliannau. Dywedodd Bernard fod y grŵp hwn wedi bod yn y sefyllfa hon o'r blaen – ffactorau allanol yw'r broblem.

9. Cyflwynodd Bridie Whittle, Sefydliad Gwy ac Wysg drosolwg o'r gwaith a wneir gyda ffermwyr yn y Diwydiant Wyau Maes. Mae'r Sefydliad wedi bod yn gweithio gyda ffermwyr Anglia FR, Noble a Stonegate i dynnu sylw at risgiau posibl, yn ogystal â hyrwyddo arferion gorau a chynnig cymorth grant ar gyfer atebion. Hefyd, mae'r Sefydliad yn gweithio'n uniongyrchol gyda thîm rheoli Noble Foods ac Anglia FR i gynnig cymorth ynghylch materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn nalgylch Afon Gwy.

10. Ymhellach, mae Sefydliad Gwy ac Wysg wedi trefnu gweminar i hyrwyddo'r manteision sy'n perthyn i blannu coed ar faestiroedd.

11. Trwy gyfrwng gwaith Courtauld, mae Sefydliad Gwy ac Wysg yn gweithio gyda ffermwyr wyau maes (47 o gynhyrchwyr wyau maes, 29 ohonynt yng Nghymru). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

    - Asesu'r risgiau a all ddod o ran ansawdd dŵr o bob safle
    - Cynnig cyngor a gwybodaeth
    - Llunio adroddiadau ar safleoedd
    - Cyfeirio ffermwyr at gymorth a grantiau
    - Rhoi cymorth grant i ymyriadau a gwelliannau gydag arian gan Fenter Courtauld

12. Disgrifiodd Bridie rai o'r gwelliannau a gyflwynwyd – mae'r gwelliannau hyn wedi lleihau dŵr ffo, diogelu cynefinoedd, gwella seilwaith er mwyn lleihau'r risgiau o du slyri, a gwahanu dŵr glân/budr.

13. Mae'r prif heriau ar safleoedd wyau maes yn gysylltiedig â rheoli a gwasgaru tail, rheoli maestiroedd a draenio safleoedd. Maent yn cynnwys y canlynol:

    - Rheoli tail – mannau storio annigonol, gan arwain at wasgaru'r tail ar y tir ar adeg amhriodol
    - Tail a slyri yn cronni mewn ardaloedd feranda
    - Dŵr draenio o ffosydd cerrig a draeniau tir
    - Rheoli dŵr budr/slyri wrth allolchi
    - Maethynnau yn cronnni mewn priddoedd – ar y maestir a thrwy'r holl fferm
    - Erydu a dŵr ffo dros y tir o briddoedd noeth ar y maestir – risg ar ambell safle

14. Dangosodd Bridie gynllun draenio nodweddiadol ar gyfer safle, cyflwynodd drosolwg o'r risgiau o du draeniau safleoedd ac ardaloedd feranda, ac awgrymodd rai mesurau lliniaru posibl. Dywedodd Bridie fod ôl-osod draeniau ar safleoedd o'r fath yn dasg anodd iawn.

15. Trafododd y grŵp y defnydd posibl y gellid ei wneud o wlyptiroedd adeiledig fel ateb technegol arloesol posibl ar ffermydd dofednod. Hefyd, trafododd y grŵp y gwahaniaeth rhwng 'dŵr rhywfaint yn fudr' a 'slyri'; bydd y cynnwys maethynnau yn pennu'r modd y caiff y 'dŵr' ei reoli.

16. Atgoffwyd y grŵp gan Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, fod yna gyfle i awgrymu 'mesurau amgen' o fewn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Dywedodd Matthew y gellid archwilio rhywbeth penodol ar gyfer dofednod trwy gyfrwng y broses honno.

17. Dywedodd Rachel fod pob safle’n wahanol. Rhaid i bobl ddeall y risgiau ac ystyried atebion pwrpasol. Cytunodd Sarah a dywedodd fod yn rhaid ystyried dŵr daear yn ogystal â dŵr wyneb.

18. Trafododd y grŵp y maethynnau a geir mewn bwyd ieir a’r broses ‘mewnbynnau/allbynnau’. Dywedodd Bridie fod Avara Foods yn cefnogi camau sy’n tynnu ffosffad o dail dofednod.

19. Gofynnodd Zoe sut mae modd i ni symud ymlaen gyda’r heriau yn y sector dofednod a gofynnodd pwy ddylai arwain y gwaith hwn. Awgrymodd Lee fod gan ddefnyddwyr ac archfarchnadoedd ran yn hyn oll, ac aeth yn ei flaen i atgoffa’r grŵp nad yw rhai ffermydd dofednod yn ailstocio oherwydd y costau cynyddol sy’n eu hwynebu. Dywedodd Chris Mills y dylai’r her hon gynnwys y diwydiant a’r archfarchnadoedd, fel y gellir dod o hyd i ateb. Yn ôl Liz, mae rhai cyflenwyr yn ymwybodol o’r heriau sy’n wynebu ffermwyr ac mae arian ar gael i fynd i’r afael â’r problemau; ond ni fydd modd i’r arian hwn gynnig ateb i bob problem.

20. Dywedodd Zoe fod gwaith ar y gweill gyda’r sector godro, ond nid i’r un graddau â’r gwaith a welir yn y sector dofednod o bosibl. Gofynnodd Matthew i ba raddau y caiff y problemau amgylcheddol hyn eu deall. Yn ôl Liz, dim ond newydd gael eu cydnabod yn eang y mae’r problemau ffosffad yn Afon Gwy, ac awgrymodd Bridie fod angen mynd i’r afael â rhagor o waith monitro er mwyn deall graddfa’r broblem. Awgrymodd Bernard y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y broblem hon a chynnig cyllid ac arweiniad i’r diwydiant.

21. O ran y broblem gyda maethynnau, dywedodd Chris Mills ei bod hi’n bwysig asesu ble yn union mae’r maethynnau hyn i’w cael er mwyn dod o hyd i atebion, yn cynnwys cyfnewid neu gydbwyso. Mae pawb yn deall bod gormod o faethynnau i’w cael yn gyffredinol yn y system, ond rhaid cael atebion economaidd ac ymarferol. Trafododd y grŵp yr arfer o wahanu maethynnau, ynghyd â Phrosiect Slyri Gelli Aur. Awgrymodd Lee ei bod hi’n bwysig helpu ffermwyr i beidio â dod ar draws problemau yn y lle cyntaf, er enghraifft trwy gyfrwng canllawiau arferion gorau.

22. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, fod angen pennu’r bobl allweddol a ddylai fod yn gysylltiedig â chanfod atebion. Gofynnodd Andrew am ragor o wybodaeth ynghylch y 29 fferm yng Nghymru yr ymwelwyd â nhw. O blith y 29 fferm, dywedodd Bridie fod gan 17 ohonynt ffosydd cerrig a bod 11 o’r rheiny’n llifo’n syth i gwrs dŵr. Gofynnodd Chris Mills faint o ffermydd maes a geir yng Nghymru. Nid oedd Liz na Bridie yn siŵr o’r ateb. Atgoffwyd y grŵp gan Lee y byddai’r ffermydd trwyddedig yn hysbys, ond na fyddem yn gwybod am y rhai eraill o bosibl. Dywedodd Andrew fod ADAS wedi cynnal astudiaeth rai blynyddoedd yn ôl ac y byddai’n mynd ar drywydd y ffigurau.

***PG01 Mai: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i ganfod faint o ffermydd dofednod maes a geir yng Nghymru.***

***PG03 Mai: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu cyflwyniadau a manylion cyswllt Sefydliad Gwy ac Wysg.***

23. Diolchodd Zoe i Liz a Bridie am eu cyflwyniadau a dywedodd fod yna lawer o waith i’w wneud er mwyn dod o hyd i atebion i’r heriau a’r problemau y soniwyd amdanynt heddiw.

## Eitem 3 Adolygu’r Cofnodion

24. Ar ôl i’r cofnodion gael eu hadolygu a’u cadarnhau’n ffurfiol gan y grŵp, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i’r cyhoedd allu eu gweld. Felly, mae’n bwysig i’r cofnodion fod yn gofnod cywir o’r cyfarfodydd.

25. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2022.

26. Awgrymodd Dennis fod ei sylwadau ynghylch y ddogfen ‘Cwestiynau Cyffredin: Tir Tenant’ yn fwy llednais yn y cofnodion nag yr oeddynt mewn gwirionedd, a hynny oherwydd ei rwystredigaeth a’i siomedigaeth ynglŷn â’r mater hwn. Dywedodd Dennis y byddai’n fwy di-flewyn-ar-dafod yn ei gyfarfod gyda’r Gweinidog. Cytunodd Dennis na ddylid newid y sylwadau yn y cofnodion.

27. Ni dderbyniwyd sylwadau na newidiadau awgrymedig eraill mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Ebrill.

## Eitem 4 Materion sy’n Codi

28. Cadarnhaodd Zoe fod Bob Vaughan, CNC, wedi cyhoeddi ei fwriad i ymddeol. Diolchodd Zoe i Bob am ei ymroddiad a’i gefnogaeth dros y blynyddoedd ac estynnodd wahoddiad i’r aelodau eraill ddymuno’n dda iddo ar ei ymddeoliad.

29. Dywedodd Bernard ei bod hi’n braf cynnal y cyfarfod mewn ystafell gyda phawb drachefn a gofynnodd beth fydd y trefniadau yn y dyfodol (e.e. cyfarfodydd hybrid). Dywedodd Zoe y bydd rhai rhith-gyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal, ond y byddai cyfarfodydd hybrid yn syniad da gan eu bod yn rhoi hyblygrwydd i bobl. Dywedodd James fod gan Hybu Cig Cymru gyfleusterau hybrid yn y swyddfa ac y byddai croeso i Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddefnyddio’r cyfleusterau hynny yn y dyfodol.

30. Ni chrybwyllwyd unrhyw fater arall.

## Eitem 5 Trafodaeth Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

31. Dyma gyfle i’r aelodau adolygu nodau Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, trafod cyfeiriad y grŵp a chytuno ar rai nodau cyffredin.

32. Aeth Marc Williams, CNC, yn ei flaen i atgoffa’r grŵp o Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (2018), lle nodir 45 o argymhellion. Gofynnodd Marc i aelodau’r grŵp a oedd ganddynt unrhyw sylwadau ynglŷn â’r argymhellion, a pha un a ddylid adolygu’r argymhellion ochr yn ochr â nodau ac amcanion y grŵp (nodir y rhain yng Nghylch Gorchwyl y grŵp).

33. Awgrymodd Zoe y dylai’r grŵp ganolbwyntio mwy ar arloesi a gofynnodd a oes yna ffordd o wybod pa bethau sy’n cael eu gwneud ar hyn o bryd a pha bethau sy’n berthnasol i’r grŵp hwn. Dywedodd Marc ei fod yn cofio gweld treial arloesol newydd

yng Ngholeg Cambria Llysfasi yn ddiweddar gyda system treulio anaerobig fechan, ac ar hyn o bryd ymddengys mai'r costau yw'r maen tramgwydd mwyaf.

34. Dywedodd Zoe mai un o'r pethau allweddol a ddeilliodd o'r cyfarfod heddiw yw bod angen cael canllawiau arferion gorau ar gyfer y sector dofednod.

35. Yn ôl Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, mae angen mwy o bwyslais ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Dywedodd Lee fod Cyswllt Ffermio yn cynnig cymorth i ffermwyr ynglŷn â'r Rheoliadau hyn. Hefyd, bydd Cyswllt Ffermio yn rhannu rhagor o wybodaeth ar gyfer ffermwyr ac yn trefnu cymorthfeydd pwrpasol yn ymwneud ag agweddau allweddol ar y Rheoliadau.

36. Pwysleisiodd Chris Mills fod yr Is-grŵp hwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â *llygredd amaethyddol* a bod pob un ohonom yn gweithio ar y cyd i leihau niwed a risgiau i'r amgylchedd. Dywedodd Chris fod yr Adroddiad Interim yn fan cychwyn ac awgrymodd y dylid pwyso a mesur argymhellion yr adroddiad hwn er mwyn gweld faint ohonynt a gyflawnwyd gennym a beth yw'r materion allweddol a erys. Mae rhannu gwybodaeth yn dda, ond rhaid canolbwyntio'r dasg hon ar y materion hynny sy'n bodoli ac ar y pethau y bydd y grŵp hwn yn eu gwneud i ymdrin â'r materion hynny. Yn ôl Chris, mae'r cyfarfod heddiw wedi tynnu sylw at rai o'r heriau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r sector dofednod a dylid ystyried hyn wrth symud ymlaen.

37. O ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR), dywedodd Rachel ei bod hi'n bwysig iawn troi gair yn weithred. Mae'r Is-grŵp hwn yn Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi bod yn grŵp pwysig iawn ac, yn gyffredinol, mae'n un o'r grwpiau gorau ei berfformiad. Dywedodd Rachel fod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 mewn lle a bod gwybodaeth wedi cael ei rhannu gyda ffermwyr a rheolwyr tir, ond rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi'r rheoliadau ar waith. Atgoffodd Rachel y grŵp fod adnoddau'n gyfyngedig ar draws sefydliadau a hefyd bod blaenoriaethau eraill ar y gorwel y mae'n rhaid canolbwyntio arnynt (e.e. cam cydlunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru), ymgyngoriadau etc.). Nid yw adolygu Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn rhywbeth y byddai NFU Cymru yn ymhyfrydu ynddo. Cytunodd Zoe na ddylai'r grŵp adolygu'r adroddiad, ond awgrymodd y gellid dysgu rhai pwyntiau pwysig a'u symud yn eu blaen. Dywedodd Zoe fod cyfathrebu a chymorth i ffermwyr yn bwysig iawn.

38. Dywedodd Dennis nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n ddigonol dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf.

39. Awgrymodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, fod Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn fframwaith da. Atgoffwyd y grŵp gan Andrew o'r cyfle mewn perthynas â'r Mesurau Amgen yn ogystal â phroses adolygu 4 blynedd y Rheoliadau, a hefyd y gwaith ar allyriadau amonia (ymgynghoriad Defra). Gofynnodd Sarah sut mae'r adolygiad 4 blynedd yn cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru). Dywedodd Andrew fod y timau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd.

40. Gofynnodd Bernard beth yw barn Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r hyn y dylai'r Is-grŵp hwn ganolbwyntio arno wrth symud ymlaen. Dywedodd Andrew y byddai'n fodlon edrych ar bortffolio amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru a rhoi awgrymiadau a gwybodaeth i'r grŵp. Awgrymodd Zoe y gallai Andrew hefyd gyflwyno safbwynt

Llywodraeth Cymru ynglŷn â rhai o'r materion/heriau a grybwyllwyd yn ystod y trafodaethau ar y sector dofednod.

***PG04 Mai: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i edrych ar bortffolio amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru a rhoi awgrymiadau a gwybodaeth i'r grŵp ynglŷn â meysydd ffocws posibl ar gyfer Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

41. Ailadroddodd Marc bum thema'r Is-grŵp, sef:

- Sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio ffurfiol yn ddigon cadarn i gyflawni'r canlyniadau gofynnol.
- Datblygu dull gwirfoddol, o dan arweiniad ffermwyr, ar gyfer rheoli maethynnau.
- Cynnig cyngor a chanllawiau gwell y gall ffermwyr eu rhoi ar waith wedyn.
- Gwella'r ystod bresennol o gyfleoedd buddsoddi.
- Pennu a hyrwyddo arloesedd.

42. Awgrymodd Chris Mills fod arloesi yn allweddol o ran atal llygredd amgylcheddol ac y dylai pobl feddwl yn rhesymegol am y mater. Awgrymodd Chris y gellid archwilio'r meysydd canlynol:

- Beth yw'r problemau?
- Beth yw graddfa'r broblem o ran maethynnau?
- Beth yw'r atebion?
- Pa bethau y gellir eu gwneud yn effeithiol ac yn effeithlon?

43. Atgoffodd Sarah y grŵp ein bod yng nghanol proses bontio a newid ar hyn o bryd (e.e. Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru), y Cynllun Ffermio Cynaliadwy etc.). Rhaid i'r Is-grŵp hwn gynnig ffordd ymlaen gan ganolbwyntio ar lygredd amaethyddol, yn cynnwys meddwl am bethau fel cyllid, dylanwadu ar newid, awgrymu dewisiadau amgen etc.

44. Soniodd Bernard am reoli gwastraff a maethynnau dros ben/gormodol a gofynnodd a fydd y Rheoliadau yn atal eu hailddefnyddio.

45. Dywedodd Dennis fod rhan o'r broblem mewn perthynas â maethynnau yn deillio o'r ffaith fod cynifer ohonynt i'w cael mewn bwyd anifeiliaid; os bydd llawer o faethynnau yn mynd i mewn, yna rhaid iddynt ddod allan hefyd. Cytunodd Zoe fod y cylch bwydo yn faes diddorol a phwysig y dylid ei ystyried ymhellach a gofynnodd i'r aelodau rannu unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r pwnc hwn.

***PG05 Mai: Yr aelodau i rannu gwybodaeth ynglŷn â maethynnau yn y cylch bwydo (yn arbennig o ran bwyd dofednod).***

## Eitem 6 Unrhyw fater arall

46. Bydd cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei gynnal ddydd Llun 20 Mehefin 2022.

47. Cyflwynodd Chris Thomas a Susie Kinghan, CNC, drosolwg byr o'r prosiect Pedair Afon LIFE. Caiff y prosiect Pedair Afon LIFE ei redeg gan CNC mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y River Restoration Trust, Coleg Sir Gâr a Coed Cadw, gyda chymorth ariannol ychwanegol gan Dŵr Cymru. Nod y prosiect yw gwella cyflwr a chynefinoedd afonydd, ailbroffilio rhannau o afonydd er mwyn arafu'r llif a lleihau'r perygl llifogydd i lawr yr afon, a gweithio gyda ffermwyr i amddiffyn coridorau afonydd a lleihau faint o waddodion a maethynnau a aiff i mewn i afonydd. Awgrymodd Chris y gallai roi cyflwyniad i'r grŵp yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

***PG06 Mai: Chris Thomas, CNC, i roi cyflwyniad yn sôn am y prosiect Pedair Afon LIFE yn un o gyfarfodydd y dyfodol.***

Dywedodd Zoe fod y gwaith hwn yn swnio'n dda iawn a gofynnodd sut gall pobl ganfod ble caiff y prosiectau eu cynnal a'r hyn sy'n rhan ohonynt. Dywedodd Chris ei fod yn fodlon aros ar Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a rhoi diweddariadau yn y dyfodol. Yn ôl Sarah, gallai'r ffaith nad oes gwybodaeth glir yn dangos yr hyn sydd wedi cael ei wneud ac yn ble fod yn faen tramgwydd wrth symud ymlaen – er enghraifft, ni cheir unrhyw gofrestr lle nodir pa gyllid/faint o gyllid a wariwyd yn y gorffennol, felly mae'r mathau hyn o grwpiau yn sylfaen wybodaeth allweddol a gallant helpu i sicrhau na chaiff y cyllid ei wario ar yr un pethau fwy nag unwaith.

48. Cyfeiriodd Dennis at Brosiect Nant Cegidfa, sef cynllun £500,000 sydd â'r nod o gyflwyno ateb seiliedig ar natur i ddelio â llifogydd ym Mhowys. Ailadroddodd Dennis rai manylion am Brosiect Nant Cegidfa, sef manylion a glywodd mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan FUW yn ddiweddar.

49. Dywedodd Bronwen Martin, CNC, fod Katy Simmons, CNC, wrthi'n llunio rhifyn nesaf Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae Katy eisoes wedi siarad â Chymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru a bydd yn cysylltu ag Einir ynglŷn â deunyddiau Cyswllt Ffermio a argymhellir (gwybodaeth am y Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol). Gofynnodd Bronwen i'r aelodau anfon erthygl fer ati hi neu at Katy Simmons a/neu adael iddynt wybod pe bai ganddynt unrhyw gwestiynau.

***PG07 Mai: Yr aelodau i anfon erthygl fer at Katy Simmons neu Bronwen Martin, CNC, ar gyfer rhifyn nesaf Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

Dywedodd Chris Thomas, CNC, mai Dana Thomas, CNC, yw'r Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y prosiect Pedair Afon LIFE, rhag ofn y daw cyfle i gynnwys rhywfaint o wybodaeth am y prosiect.

Dywedodd Bernard fod FUW wedi lansio Maniffesto yn ddiweddar yn barod ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol Cymru yn 2022.

Dywedodd Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin fod y Ffederasiwn a'r Ymddiriedolaeth Afonydd wedi ymuno â'r Prosiect Afonydd Clyfar, sy'n ymchwilio i iechyd afonydd yng Nghymru. Mae'r prosiect yn golygu samplu afonydd ac adnabod

creaduriaid di-asgwrn-cefn er mwyn llywio materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr trwy dynnu sylw at ddangosyddion a all helpu i adnabod y llygredd.

50. Yn ddiweddar, mynychodd Zoe Ddigwyddiad Glaswelltiroedd y Sioe Frenhinol a gynhaliwyd ar 12 Mai 2022 yng Ngholeg Cambria Llysfasi. Mynychodd Marc y digwyddiad hefyd a dywedodd ei bod hi'n braf cael rhyngweithio â'r Coleg a'r ffermwyr. Dywedodd Zoe y bydd 'Da Byw 2022 – Y Gynhadledd Ffermio Da Byw Cynaliadwy' yn cael ei chynnal ar 17 Mehefin 2022 yng Nghoed Coch, Dolwen.

## Diwedd y cyfarfod